# Cynllun Gwers ABCh CLIC - CA4

## Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang – Bwyd

Amlinelliad & Gofynion

**Pwnc/Teitl cyffredinol ar gyfer y wers:**

Pa gysylltiad sydd gan ddatblygiad cynaliadwy a moeseg i'r bwyd rydym yn ei fwyta?

**Cyfnod allweddol neu grŵp myfyrwyr:**

CA4

**Amser sydd angen**

1 awr

**Disgrifiad byr:**

Mae siopau bellach yn gwerthu nifer o wahanol fathau o fwyd. Masnach Deg, organig a bwyd wedi'u haddasu'n enetig (GM). Beth ydy nhw a pam ddylai ni gysidro nhw?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu meddwl | ✓ | Datblygu rhifo | |
| Datblygu cyfathrebu | ✓ | Gweithio gydag eraill | ✓ |
| Datblygu TGC | ✓ | Gwella hunan ddysgu | ✓ |

**Cysylltiad i Fframwaith ABCh APADGOS ar gyfer rai 7 i 19 oed yng Nghymru**

**Themâu: Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang**

**Canlyniad dysgu penodol bwriadol:**

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

» Adnabod hawliau cenedlaethau'r dyfodol i gyfarfod eu hanghenion sylfaenol
» Cymryd cyfrifoldeb am newid ffordd o fyw eu hunain fel ymateb i faterion lleol a byd-eang

**Ac i ddeall**

» Y tyndra rhwng tyfiant economeg, datblygiad cynaliadwy ac anghenion dynol sylfaenol

**Offer, adnoddau a'r paratoi sydd yn rhaid gwneud:**

Dyfod â hysbysebion neu eitemau bwyd sydd yn Fasnach Deg, organig neu wedi'u haddasu'n enetig e.e. coffi, siocled
Cyfleusterau TG

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Cynllun Gwers ABCh CLIC – CA4

Cynllun Gwers

## Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang – Bwyd

### Dull

**Cychwyn Gwers: (5 munud)**

» Gofynnwch i'r myfyrwyr os ydynt yn ymwybodol o ble mae eu bwyd yn dod, sut mae wedi'i gynhyrchu, pwy sydd yn rhan o hyn?
» Trafodwch pam ei bod hi'n bwysig gwybod am y broses cynhyrchu bwyd

**Cyflwyniad: (5 munud)**

» Ysgrifennwch ar y bwrdd Masnach Deg, Organig a Bwydydd Wedi'u Haddasu'n Enetig (GM) mewn tair colofn
» Gofynnwch i'r myfyrwyr os ydynt yn gwybod beth mae'r geiriau hyn yn ei feddwl
» Esboniwch fod:
  ◊ Y symudiad Masnach Deg yn ymdrech i roi mwy o reolaeth i gynhyrchwyr bach dros eu bywydau, drwy roi cyfran mwy o'r pris terfynol
  ◊ Mae bwyd organig yn derm sydd yn disgrifio cnydau sydd yn cael eu tyfu heb wrteithiau (fertiliser) artiffisial neu blaleiddiaid (pesticides) a chig gan anifeiliaid sydd heb dderbyn symiau mawr o feddyginiaethau
  ◊ Mae'r term bwydydd wedi'u haddasu'n enetig yn cyfeirio at gnydau sydd yn cael eu tyfu trwy fewnosod genynnau o un planhigyn, neu hyd yn oed anifail, i un arall i roi nodweddion newydd i'r cnwd yna
  ◊ Gofynnwch i'r dosbarth os ydynt yn ymwybodol o unrhyw fwyd o'r categorïau ac i restru nhw yn ôl eu trefn

**Gweithgareddau: (40 munud)**

**Ymchwil ac ysgrifennu erthygl (30 munud)**

» Mewn grŵpiau bach, myfyrwyr i ddefnyddio adran Amgylchedd y wefan CLIC Gwybodaeth > Amgylchedd > http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/amgylchedd/ i ymchwilio unrhyw un o'r tri math o fwydydd ac ysgrifennu erthygl 150-200 gair
» Gallent hefyd chwilio am ddelweddau neu fideo addas i fynd gyda'r erthygl

**Cyflwyno erthygl i CLIC: (15 munud)**

Gallent gyflwyno eu herthyglau i'r wefan CLIC > www.clicarlein.co.uk ar ôl cofrestru fel defnyddiwr.

» Gofynnwch i'r dosbarth beth maen nhw'n feddwl sydd yn gwneud erthygl dda a sut dylai erthygl gael ei gynllunio?
» Dylai pob erthygl gael:

1. pennawd
2. cynnwys sydd yn disgrifio pob math o fwyd a pam ei fod yn bwysig yn gen-edlaethol
3. esiamplau o'r bwyd ymglymedig a lluniau os yn bosib
4. rhesymau o blaid ac yn erbyn prynu pob math o fwyd
5. casgliad/diwedd

**Cyflawni (5 munud)**

» Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno ei erthygl i weddill y dosbarth a'i lwytho i'r wefan CLIC

**Gweithgaredd Estyniad**

Edrychwch ar y posibilrwydd o sefydlu stondin Masnach Deg neu siop fwyd ffrwythau.

**Awgrymiadau ac adnoddau ychwanegol:**

Gallai gysylltu gyda Daearyddiaeth neu Dechnoleg Bwyd
http://www.cliconline.co.uk/cym/gwybodaeth/amgylchedd/pobl/